

DIWEDDARIAD GWANWYN 2026



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



GOV.WALES

Cronfa Addington
01926 620 135

**Asiantaeth Iechyd
Anifeiliaid a Phlanhigion**
03000 200 301

Arolwg moch daear marw
0808 303 7086

**Gwasanaeth Symud
Gwartheg Prydain (BCMS)**
0345 050 3456

**Llinell Gymorth Rheoli Llygredd
Amaethyddol a weithredir gan
ADAS**
01974 847 000

Sefydliad DPJ
0800 587 4262

EID Cymru
01970 636 959

Cyswllt Ffermio
03456 000 813

Y Rhwydwaith Cymunedau Fferm
03000 111 999

Lantra Cymru
01982 552 646

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
0300 065 3000

**Ardystiad Bwyd
Cymreig o Ansawdd**
01970 636 688

**Sefydliad Fuddianol
Amaethyddol Frenhinol**
0800 188 4444

**Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid
RPW**
0300 062 5004

Samaritans yng Nghymru
116 123

Llinell Gymorth TB
0300 303 8268

Tir Dewi
0800 121 4722

DYDDIADAU PWYSIG

2 MAW 2026 –
15 MAI 2026

Ffurflen Ymgeisio Sengl
Ffenestr Ymgeisio

02 MAW 2026 –
09 MEH 2026

Ffurflen Gais Sengl Ffenestr
Cais (gyda phanalïaethau
cyflwyno hwyr)

02 MAW 2026 –
22 MAI 2026

Grantiau Bach Creu Coetir

01 GOR 2026

Ceidwaid gwartheg
i gwblhau sgrinio buches
flynyddol BVD

22 MAW 2026 –
20 TACH 2026

Grant Creu Coetir

01 ION 2026 –
31 RHAG 2026

Cynllun Creu Coedwigoedd

I weld dyddiadau ymgeisio'r holl gynlluniau cymorth amaethyddol, ewch i: [llyw.cymru/cynlluniau-gwledigdyddiadau-ymgeisio](#) i weld canllawiau'r holl Gynlluniau Cymorth Amaethyddol, ewch i [llyw.cymru/grantiau-a-thaliadau-gwledig](#) ychydig cyn i'r cyfnod ymgeisio agor ar gyfer y rownd nesaf.

Roedd y wybodaeth yn y Diweddariad Gwanwyn yn gywir o'i ddyddiad cyhoeddi (16 Mawrth 2026). Am y dyddiadau, y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf, ewch i wefan Llywodraeth Cymru [LLYW.CYMRU](#).

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, WG53968
ISBN digidol: 978-1-83745-228-6
ISBN argraffu: 978-1-83745-227-9



04
CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY

10
CYSWLLT FFERMIO: CYMORTH SFS

12
TALIADAU GWLEDIG CYMRU

14
TANYSGRIFIWCH I'R CYLCHLYTHYR
E-GWLAD

15
DROSLWYDDO CPH

16
EID CYMRU: NEWIDIADAU PWYSIG
I GEIDWAID GWARTHEG

17
CREU COETIROEDD

18
DIM GORCHYMYN CYFLOGAU
AMAETHYDDOL NEWYDD AR GYFER
1 EBRILL 2026

20
IECHYD A LLES ANIFEILIAID

21
MANYLION CYSWLLT GWASANAETH
CYSYLLTWYR FFERM

22
BLE ALLAF I GAEL HELP

CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY

Trosolwg

Dechreuodd Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) ar 1 Ionawr. Os gallwch fodloni'r meini prawf cymhwysedd, gofynion y cynllun a'r Gweithredoedd Cyffredinol sy'n berthnasol i'ch daliad, byddwch yn gallu cymryd rhan yn y cynllun.

Gallwch roi gwybod i ni a ydych chi'n hawlio'r SFS, neu Gynllun y Taliad Sylfaenol ar eich Ffurflen Cais Sengl (SAF). Nid oes angen i chi roi gwybod i ni cyn y SAF os hoffech ymuno â'r SFS.

Bydd SAF 2026 ar agor rhwng 2 Mawrth a 15 Mai, ac rydym yn eich annog i wneud yn siŵr eich bod yn ymwybodol o'r Gweithredoedd Cyffredinol a allai fod yn berthnasol i chi, a phryd y mae angen eu cyflawni drwy gydol y flwyddyn. Bydd Map yr SFS sydd ar gael ar RPW Ar-lein yn dangos y cynefin, y coetir a gwybodaeth berthnasol arall sy'n berthnasol i'ch fferm.

Ar gyfer y ffermwyr hynny sy'n dymuno adeiladu ar yr Haen Gyffredinol, ac ymgymryd â Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol ychwanegol, byddwn yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth cyn bo hir ar ba weithredoedd fydd ar gael trwy gydol 2026.

Gweithredoedd Cyffredinol a gofynion eraill y cynllun

Mae 12 Gweithred Gyffredinol (UA) i bob ffermwr eu cwblhau i fodloni gofynion y cynllun, fodd bynnag, efallai na fydd rhai Gweithredoedd Cyffredinol yn berthnasol i bob fferm. Er enghraifft, ni fydd angen i ffermydd â'r heb dda byw fynd i'r afael ag UA12 Iechyd a Lles Anifeiliaid. O'r Gweithredoedd Cyffredinol sy'n berthnasol i chi, efallai eich bod eisoes yn ymgymryd â rhai ohonynt. Er enghraifft, mae llawer o ffermwyr eisoes yn mynd ati i brofi pridd, meincodi neu gynnal cynefinoedd yn unol â'r gofynion.



Mae'r Gweithredoedd Cyffredinol hyn wedi'u cynllunio i fod o fudd i berfformiad economaidd ac amgylcheddol eich fferm. Mae rhai gweithredoedd yn benodol i adegau penodol o'r flwyddyn, a gellir mynd i'r afael â rhai ar unrhyw adeg. Nid ydym yn disgwyl i chi wneud popeth ar unwaith.

Rydym yn eich annog i wasgaru'r gweithredoedd, yn hytrach na'u gadael i gyd tan ddiwedd y flwyddyn, a allai achosi oedi i'ch taliadau. Bydd y gweithredoedd hyn yn darparu'r gwerth mwyaf i chi pan fyddant wedi'u hintegreiddio fel rhan o'ch gwaith parhaus o reoli'r fferm.

Gellir dod o hyd i gyflwyniad syml i'r cynllun yn yma:
llyw.cymru/cyflwyniad-ir-cynllun-ffermio-cynaliadwy.



Mae canllawiau manylach ar y cynllun ar gael yn yma
llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy-2026-haen-gyffredinol llyfryn-rheolau.



Mae rhai Gweithredoedd Cyffredinol y gallwch chi ddechrau arnynt nawr:

Mae UA3 Meincodi wedi'i gynllunio i'ch helpu i fonitro perfformiad eich da byw, eich cnydau ac elfennau eraill o fusnes y fferm. Os byddwch yn dewis gwneud eich gwaith Meincodi drwy Cyswllt Ffermio, mae'r offeryn FARMDATA+ ar gael o 1 Ebrill.

Mae UA4 Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) wedi'i gynllunio i'ch helpu i adeiladu ar eich sgiliau a'ch gwybodaeth bresennol gyda dysgu ychwanegol. Gallwch ddewis

gwahanol ddarparwyr dysgu, a gwahanol fathau o ddysgu. Os ydych chi'n dewis cwblhau rhywfaint o'ch dysgu neu'ch holl ddysgu trwy fodiwlau dysgu ar-lein Cyswllt Ffermio, gallwch ddechrau nawr.

UA5 Cynnal cynefinoedd – cynlluniwch eich patrymau pori tymhorol i fodloni gofynion y gwahanol fathau o gynefinoedd.

UA6 Creu cynefin dros dro – os nad oes gennych ddigon o gynefin presennol, mae angen i chi feddwl pa gynefinoedd dros dro rydych chi'n mynd i'w creu i fodloni gofyn y cynllun bod o leiaf 10% o'ch fferm yn cael ei chynnal fel cynefin. Mae gan y gwahanol fathau o greu cynefinoedd ddyddiadau sefydlu tymhorol gwahanol. Bydd angen i chi gadarnhau pa gynefinoedd y byddwch chi'n eu creu ar eich SAF, a rhaid i'r cynefinoedd hynny gael eu sefydlu erbyn y dyddiadau penodedig.

Ffurflen Cais Sengl 2026

Bydd y Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2026 ar gael ar RPW Ar-lein o 2 Mawrth. I gwblhau eich SAF, bydd angen i chi ddewis a ydych chi'n hawlio Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, neu'r Cynllun Taliad Sylfaenol ar gyfradd talu sy'n lleihau'n raddol. Ni allwch hawlio SFS a BPS ar yr un fferm.

Os ydych chi'n hawlio SFS yn 2026, ni fyddwch yn gallu hawlio BPS yn y blynyddoedd i ddod. Os ydych chi'n hawlio BPS yn 2026, byddwch yn dal i allu hawlio SFS yn 2027, os hoffech wneud hynny.

Rydym yn eich annog i gwblhau eich SAF cyn gynted â phosibl, yn enwedig os ydych chi'n hawlio SFS, oherwydd bydd angen gwybodaeth ychwanegol. Er enghraifft, bydd angen i chi gadarnhau eich arwynebeddau cynefin a chanopi coed gan ddefnyddio'r Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd yn y SAF. Drwy ddiweddarau'r wybodaeth hon, bydd y SAF yn gallu cadarnhau a oes gennych gynefin digonol i fodloni gofyn y cynllun bod o leiaf 10% o'ch fferm yn cael ei chynnal fel cynefin.

Os nad oes gennych ddigon o gynefin i fodloni'r gofyniad, gallwch ddatgan unrhyw wrychoedd/perthi cymwys yr hoffech eu defnyddio i helpu i gyrraedd y 10%. Os nad oes gennych ddigon o gynefin o hyd, byddwch yn gallu dewis o restr o fathau o gynefinoedd dros dro y gellir eu creu o fewn blwyddyn y cynllun. I gael canllawiau ar greu cynefinoedd dros dro newydd, gweler yma:

llyw.cymru/haen-gyffredinol-ua6-creu-cynefin-dros-dro-ar-dir-wedii-wella-canllaw-cyflym.



Mae eich map SFS hefyd ar gael ar RPW Ar-lein i'ch helpu i ddeall y dosbarthiad cynefin bras, nodweddion tirwedd a gwybodaeth bwysig arall ar y tir sy'n berthnasol i'ch fferm.

Ar ôl i chi gyflwyno'ch SAF, byddwch yn derbyn neges sy'n cynnwys copi o'ch cais. Bydd hefyd yn cynnwys crynodeb o'r holl Weithredoedd Cyffredinol sy'n berthnasol i'ch busnes ffermio.

Trwy ddechrau eich SAF yn gynnar, dylai fod digon o amser os oes angen i chi wneud unrhyw ymholiadau neu gael eglurhad ynghylch unrhyw un o ofynion y cynllun.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'ch SAF yw hanner nos 15 Mai 2026, neu 9 Mehefin 2026 gyda chosbau am ei chyflwyno'n hwyr. Ni fyddwn yn derbyn SAF a gyflwynir ar ôl hanner nos ar 9 Mehefin 2026.

Gallwch gael mynediad at eich SAF a'ch map SFS ar RPW Ar-lein.

Rheoli fy Nhir

Os ydych chi'n bwriadu ymuno â'r SFS ar SAF 2026, ac os oes angen i chi wneud unrhyw newidiadau i barseli tir, megis diwygio ffiniau, hollti/uno parseli neu ychwanegu, dileu neu ddiwygio nodweddion parhaol, bydd angen i chi gyflwyno cais Rheoli Fy Nhir ar RPW Ar-lein cyn i chi wneud unrhyw newidiadau i'r parseli tir hynny yn yr Adran Data Caeau ar y SAF. Rydym yn eich annog i adolygu Map yr SFS cyn gynted â phosibl ar gyfer unrhyw newidiadau a allai fod eu hangen.

Rhestr Wirio ar gyfer yr SFS

- ✓ Gwiriwch fod eich Map SFS ar RPW Ar-lein yn gywir ac er mwyn nodi pa Weithredoedd Cyffredinol ar y tir a allai fod yn berthnasol i chi.
- ✓ Rhowch wybod i RPW am unrhyw newidiadau i fanylion tir drwy 'Rheoli fy Nhir' cyn cyflwyno'ch SAF.
- ✓ Llenwch eich SAF cyn gynted â phosibl cyn y dyddiad cau ar 15 Mai.
- ✓ Dechreuwch gynllunio sut y byddwch chi'n bodloni'ch Gweithredoedd Cyffredinol, yn enwedig os oes angen i chi greu cynefin dros dro ychwanegol i fodloni gofyniad cynefin y cynllun.
- ✓ Cwblhewch y trosglwyddiad RPW Ar-lein o Borth y Llywodraeth i GOV.UK One Login yn barod ar gyfer yr SFS.



Cyfrifoldebau wrth Gydymffurfio â Dysgu Proffesiynol Parhaus (DPP) Gweithredu Cyffredinol GC4 (UA4) y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS)

Mae'r nodyn hwn yn amlinellu eich cyfrifoldebau ar gyfer cydymffurfio â gofynion DPP UA4 ar gyfer blwyddyn 2026 y cynllun ac yn y blynyddoedd dilynol.

Gweithredoedd Angenrheidiol

- ✓ Rhaid ichi gwblhau **o leiaf 6 awr o DPP cymwys** erbyn **31 Rhagfyr 2026, gan gynnwys** modiwl Iechyd a Diogelwch gorfodol.
- ✓ Mae DPP **yn ofynnol ar gyfer pob ymgeisydd SFS.**

Defnyddio Dysgu Cyswllt Ffermio

Os byddwch yn cwblhau eich DPP drwy **Cyswllt Ffermio**, caiff eich dysgu ei gofnodi'n awtomatig ar eich cyfrif Storfa Sgiliau, ac **nid oes angen darparu tystiolaeth ychwanegol** ar gyfer archwiliad.

Mae'r gweithgareddau canlynol yn gymwys drwy Cyswllt Ffermio:

- ✓ grwpiau trafod
- ✓ gweithdai iechyd a lles anifeiliaid
- ✓ hyfforddiant achrededig
- ✓ mentora
- ✓ dosbarth Meistr
- ✓ academi Amaeth
- ✓ Agrisgôp
- ✓ e-ddysgu sy'n gysylltiedig â'r SFS (gyda rheolau penodol ar gyfer 2026).

Os nad ydych yn sicr a yw'r dysgu a gwblhawyd yn gymwys, dylech gysylltu â'ch Swyddog Datblygu Cyswllt Ffermio lleol neu'r Ganolfan Wasanaeth.

Rheolau Arbennig ar gyfer 2026 yn Unig

- ✓ Bydd **e-ddysgu sy'n gysylltiedig â'r SFS (ac eithrio hyfforddiant medrusrwydd) a gwblhawyd o Orffennaf 2025** yn cyfrif tuag at UA4 ar gyfer 2026 yn unig.
- ✓ O 2027 ymlaen, dim ond e-ddysgu a gwblheir **o fewn y flwyddyn galendr dan sylw** fydd yn cyfrif.

Gall rhai hyfforddiant profiadol Iechyd a Lles Anifeiliaid gyfrannu tuag at **UA4 ac UA12**, yn dibynnu ar rôl yr unigolyn. Fel rhan o **UA12: Iechyd a Lles Anifeiliaid**, rhaid cwblhau **dwyr awr o hyfforddiant medrusrwydd bob pum mlynedd**. Os yw'r unigolyn sy'n hyfforddi yn **berchennog busnes neu'n bartner** (fel sydd wedi'i gofrestru gyda RPW), gall y ddwy awr gyfrif tuag at y **chwe awr DPP** sy'n ofynnol yn y flwyddyn y cynhelir y dysgu. Nid yw hyfforddiant a gwblheir gan weithiwr nad yw'n berchennog neu'n bartner yn cyfrif tuag at y chwe awr.



Defnyddio Dysgu Allanol (Nid drwy Gyswilt Ffermio)

Ni chaiff dysgu a ddarperir gan gorff allanol ei gofnodi'n awtomatig ar eich Storfa Sgiliau / Dashfwrdd Cyffredinol, ac mae'n rhaid cadw tystiolaeth ar gyfer ei archwilio (gweler y cadw cofnodion isod).

Derbynnir dysgu allanol os yw'n bodloni *pob un* o'r canlynol:

1. Yn cefnogi **o leiaf un amcan** Rheoli Tir Cynaliadwy (SLM).
2. Â **chanlyniadau dysgu clir**
3. Yn cynnwys **asesiad** (ffurfiol, llafar neu ryngweithiol)
4. Yn darparu **tystiolaeth o bresenoldeb**, gan gynnwys hyd yr hyfforddiant ac amcan y Modiwl Arweinyddiaeth Ysgolion a gwmpesir

Mathau o ddysgu allanol sy'n cael eu derbyn:

- ✓ E-ddysgu
- ✓ cyrsiau achrededig
- ✓ grwpiau trafod
- ✓ dosbarth meistr
- ✓ mentora
- ✓ gweithdai iechyd a lles anifeiliaid.

Ni dderbynnir presenoldeb yn unig mewn cynadleddau, sioeau teithiol a chyfarfodydd cyffredinol.

Cyfrifoldebau cofnodi

Os defnyddir darparwyr allanol, rhaid cadw'r dystiolaeth **ar y fferm am 5 mlynedd** a'i darparu ar gais yn ystod archwiliad. Rhaid i'r dystiolaeth gynnwys:

- ✓ teitl y cwrs
- ✓ dyddiad yr hyfforddiant
- ✓ nifer yr oriau dysgu
- ✓ pa amcan(ion) SLM a gwmpesir
- ✓ enw'r cyfranogwr (os nad chi ydyw).

Rhaid cofnodi'r wybodaeth hon ar eich Dashfwrdd SFS erbyn **15 Ionawr 2027** i gydymffurfio â gofynion SFS 2026.

Rheol Syml i Wirio Cydymffurfiaeth

Mae eich DPP yn debygol o fod yn gymwys os yw'n:

- ✓ ddysgu strwythuredig
- ✓ gyda chanlyniadau dysgu clir
- ✓ yn cynnwys elfen o brofi dysgu
- ✓ yn darparu tystysgrif neu gofnod presenoldeb
- ✓ yn cyfrannu at o leiaf un amcan SLM

Os oes unrhyw un o'r elfennau hyn ar goll, mae'n annhebygol y bydd y gweithgaredd yn gymwys.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'ch Swyddog Cyswilt Fferm lleol (FLS) neu Ganolfan Cyswilt Cwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru (RPW) ar 0300 062 5004.

CYSWLLT FFERMIOYN CYNORTHWYO EICH TAITH I'R CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY

CAMAU GWEITHREDU CYFFREDINOL



01

CYNLLUNIO IECHYD Y PRIDD

Hyfforddiant Achrededig
Gwasanaeth Cyngori
Clinigau
Dosbarthiadau Meistr
Mentora
Ein Ffermydd



03

MEINCNODI

Hyfforddiant Achrededig
Gwasanaeth Cyngori
Offeryn Meincnodi -
FarmData+
E-ddysgu
Cymorth TGCh



05

CYNNAL CYNEFINOEDD

Hyfforddiant Achrededig
Gwasanaeth Cyngori
E-ddysgu
Dosbarthiadau Meistr
Mentora
Ein Ffermydd



07

CYNLLUNIAU RHEOLI SAFLEOEDD DYNODEDIG

Gwasanaeth Cyngori
Agrisgôp
E-ddysgu
Mentora
Ein Ffermydd
Cynllunio Cymorthfeydd



09

CYNNAL COETIR

Hyfforddiant Achrededig
Gwasanaeth Cyngori
Cymorth Garddwriaeth
Mentora
Ein Ffermydd
Cymorthfeydd



11

YR AMGYLCHED HANESYDDOL

Gwasanaeth Cyngori
Agrisgôp
E-ddysgu
Mentora
Cynllunio Cymorthfeydd



02

RHEOLAETH INTEGREDIG AR BLÂU

Hyfforddiant Achrededig
Gwasanaeth Cyngori
Cymorth Garddwriaeth
Dosbarthiadau Meistr
Mentora
Ein Ffermydd



04

DATBLYGIAD PERSONOL PARHAUS

Hyfforddiant
Achrededig
Academi Amaeth
Agrisgôp
E-ddysgu
Digwyddiadau a
Gweithdai
Mentora



06

CREU CYNEFIN DROS DRO AR DIR WED'I WELLA

Hyfforddiant Achrededig
Gwasanaeth Cyngori
E-ddysgu
Dosbarthiadau Meistr
Ein Ffermydd
Cymorthfeydd



08

RHEOLI PERTHI (GWRYCHOEDD)

Hyfforddiant Achrededig
Gwasanaeth Cyngori
Cymorth Garddwriaeth
Dosbarthiadau Meistr
Mentora
Ein Ffermydd



10

CYNLLUN CYFLE I BLANNU COED A CHREU PERTHI (GWRYCHOEDD)

Gwasanaeth Cyngori
E-ddysgu
Cymorth Garddwriaeth
Dosbarthiadau Meistr
Mentora
Ein Ffermydd



12

IECHYD A LLES ANIFEILIAID

Hyfforddiant Achrededig
Gwasanaeth Cyngori
Gweithdai Iechyd a Lles
Anifeiliaid
Taflen Ffeithiau BCS
Mentora
Ein Ffermydd



llyw.cymru/cyswlltffermio 03456 000 813



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

TALIADAU GWLEDIG CYMRU



Cyfnod Pontio Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS)

Dechreuodd Gyfnod Pontio'r BPS ar 1 Ionawr 2026, gyda chyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS).

Bydd gan ffermwyr yr opsiwn i hawlio am BPS neu SFS ar y Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2026, a fydd ar gael ym mis Mawrth 2026. Unwaith y bydd busnes fferm yn hawlio SFS, ni all hawlio BPS eto.

Nid oes unrhyw newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd nac i reolau'r cynllun yn ystod y cyfnod pontio hwn, fodd bynnag, bydd taliadau BPS yn gostwng dros y 3 blynedd nesaf, yn

seiliedig ar werthoedd hawliau o BPS 2025, fel a ganlyn:

- ✓ 60% yn 2026
- ✓ 40% yn 2027
- ✓ 20% yn 2028.

Ni fydd taliadau BPS ar gael yn 2029.

2025 oedd y flwyddyn olaf ar gyfer y Gronfa Genedlaethol a'r rheol dwy flynedd i ddefnyddio hawliau.

Ni fydd Taliadau Ffermwyr Ifanc ar gael i hawlwyd newydd yn 2026.

llyw.cymru/cynllun-y-taliad-sylfaenol#Canllawiau-a-gwasanaethau

Trosglwyddo a Lesio Hawliau Cynllun BPS 2026

Mae trosglwyddo hawliau BPS wedi'i gyfyngu i'r rhai sy'n trosglwyddo a/neu'n lesio hawliau gyda thir ar gyfer 2026 ymlaen yn unig. Mae hyn yn golygu mai dim ond gyda thir y gellir trosglwyddo hawliau BPS mewn achosion o etifeddiaeth ac olyniaeth.

Agorodd cyfnod trosglwyddo a lesio 2026 ar 12 Ionawr a bydd yn cau ar 15 Mai. Mae canllawiau trosglwyddo hawliau ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: llyw.cymru/cynllun-y-taliad-sylfaenol-canllawiau-ar-drosglwyddo-hawliau.

Proses Apelio Annibynnol ar gyfer Grantiau a Thaliadau Gwledig – Ffi Apelio

O 1 Ionawr 2026 ymlaen, cynyddodd y ffi a godwyd am gyflwyno apêl Cam 2 i dalu costau'r Panel Apelio Annibynnol.



Mae'r fffioedd apelio diwygiedig yn berthnasol i bob apêl Cam 2 a gyflwynir o'r dyddiad hwn, ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud ag iawndal TB.

Mae canllawiau apeliadau diwygiedig wedi'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

llyw.cymru/apeliadau-grantiau-thaliadau-gwledig-canllaw

RPW Ar-Lein – Symud o Borth y Llywodraeth i One Login GOV.UK

Mae cyflwyno a gweinyddu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn 2026 yn dibynnu ar One Login GOV.UK.

Mae RPW Ar-lein yn cymryd lle gwasanaeth Porth y Llywodraeth gan ddefnyddio gwasanaeth One Login GOV.UK yn ei le.

Mae holl gwsmeriaid RPW Ar-lein bellach wedi cael eu gwahodd i symud o Borth y Llywodraeth i One Login GOV.UK. Mae cymorth ar gael gan ein Canolfan Gyswllt Cwsmeriaid, gan y Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm a Cyswllt Ffermio i gynorthwyo gyda'r broses symud. Byddem yn annog ein holl gwsmeriaid i ddefnyddio One Login GOV.UK cyn gynted â phosibl, gan ein bod yn bwriadu dileu Porth y Llywodraeth erbyn haf 2026.

Mae canllawiau llawn ar sut i symud ar gael ar-lein ac mae'r ddolen i'r canllawiau wedi'i chynnwys yn y gwahoddiad.

llyw.cymru/rpw-ar-lein-symud-o-borth-y-llywodraeth-i-one-login-govuk

Gwlad e-gylchlythyr



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



TANYSGRIFIWCH I DDERBYN NEWYDDION AM FFERMIO A CHOEDWIGAETH



Cadwch eich busnes fferm neu goedwigaeth yn gyfredol gyda'r newyddion, y grantiau a'r polisiâu diweddaraf.

Gallwch gofrestru i dderbyn Gwlad mewn e-bost drwy gymryd pedwar cam hawdd...

1. Sganiwch y Cod QR



neu ewch i
**[llyw.cymru/cofrestrwch-
ar-gyfer-newyddion-
amaethyddiaeth-
choedwigaeth-gwlad](https://llyw.cymru/cofrestrwch-ar-gyfer-newyddion-amaethyddiaeth-choedwigaeth-gwlad)**

2. Cliciwch ar Mewngofnodwch'.

3. Cofrestrwch ar gyfer cyfrif newydd neu mewngofnodwch i gyfrif presennol trwy nodi'ch cyfeiriad e-bost, cyfrinair a chwblhau'r gwiriad diogelwch.

4. Sgroliwch i'r gwaelod a chlicio ar '**Cyflwyno**'.

Llwyddiant - Dylech nawr fod wedi tanysgrifio i dderbyn e-gylchlythyr Gwlad!

DROSGLWYDDO CPH

Annog ceidwaid i “Drosglwyddo eu CPH” i’r Rheolau Symud Da Byw Newydd

Allech chi fod yn gweithredu o dan yr hen reol “5 milltir”?

Symudwch i’r rheolau CPH symlach heddiw.

Mae’n gwella cysondeb, yn cryfhau olrhain, ac yn lleihau gwaith papur.

Pam gwneud y newid?

- ✓ Un Rheol 10 milltir syml ar gyfer pob symudiad da byw
- ✓ Rheolaeth gliriach a haws o dir cysylltiedig
- ✓ Gwell bioddiogelwch ac adrodd symudiadau mwy cywir.

Sut i Gael Help

- ✓ Gwiriwch a diweddarwch eich manylion yn **Rheoli Fy CPH** ar **RPWAr-lein**. (os yw’n nodi “Derbyniwyd” rydych yn cael eich pontio ac nid oes angen gweithredu pellach, os yw’n nodi “Heb ddechrau pontio” dylech drosglwyddo i’r rheolau newydd).
- ✓ Mae cyfarwyddiadau desg cam wrth gam ar gyfer cwblhau’r pontio ar gael yn: **llyw.cymru/rpw-ar-lein-canllaw-i-gwsmeriaid**
- ✓ Siaradwch â’ch Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm Lleol am arweiniad



Wrth i Gymru symud tuag at system olrhain fwy modern a chadarn, mae’n bwysicach nag erioed bod y data tir a lleoliad sydd gennym ar gyfer ceidwaid yn gywir ac yn gyfredol.

Trwy drosglwyddo nawr, bydd ceidwaid nid yn unig yn elwa o’r rheolau CPH symlach ond byddant hefyd yn sicrhau bod eich cofnodion yn gywir gan helpu i gryfhau fframwaith olrhain cenedlaethol Cymru ar gyfer y dyfodol.

EID CYMRU: NEWIDIADAU PWYSIG I GEIDWAID GWARTHEG



Yn ddiweddarach eleni, rydym yn cynllunio i drosglwyddo pob cofrestrriad gwartheg a'r adroddiadau symud sydd ar hyn o bryd yn cael eu rheoli gan. Wasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) a'r System Olrhain Gwartheg (CTS) i EIDCymru. Mae hyn yn golygu y bydd yr holl gofnodion gwartheg sy'n gysylltiedig â daliadau Cymru yn symud i EIDCymru, gan greu un gronfa ddata da byw aml-rywogaeth symlach i Gymru.

Rydym yn ysgrifennu at yr holl geidwaid gwartheg ynglŷn â'r newidiadau adrodd sydd ar y gweill ac er mwyn sicrhau pontio llyfn. Gofynnwn yn garedig i chi fewngofnodi i'ch cyfrif CTS, adolygu eich manylion cyswllt, gwybodaeth am y daliad, a chofnodion gwartheg. Os oes unrhyw beth o'i le neu os oes angen diweddarau hen wybodaeth, cofiwch ei ddiweddarau cyn gynted â phosibl.

Dros y misoedd nesaf, byddwn yn rhannu rhagor o fanylion am:

- ✓ sut y bydd cofrestru gwartheg ac adrodd ar symudiadau yn gweithio ar EIDCymru
- ✓ pa newidiadau y gall ceidwaid eu disgwyl
- ✓ sut i ddechrau arni gyda'r system newydd.

Pan fydd y broses adrodd am wartheg wedi trosglwyddo i EIDCymru, byddwn yn cynnig diweddariad i chi ynglŷn â phryd y bydd EID Gwartheg yn cael ei gyflwyno yng Nghymru.

Parhewch i gofrestru ac adrodd symudiadau gwartheg drwy BCMS.

I gael y diweddariadau diweddaraf, ewch i llyw.cymru/cofrestru-a-symudiadau-anifeiliaid.



CREU COETIROEDD

Creu Coetiroedd: Diweddariadau a Chyfleoedd ar gyfer 2026

Agorodd ceisiadau am gymorth Creu Coetiroedd eto ar **2 Mawrth 2026**, gan roi cyfle o'r newydd i ffermwyr ledled Cymru gyflwyno cynigion plannu coed sy'n gweithio i'w busnesau. Mae'r newidiadau a gyflwynwyd ar gyfer 2026 wedi'u cynllunio i wneud gwaith creu coetir yn symlach, yn fwy hyblyg a sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn well â realiti ymarferol ar ffermydd, gan barhau i ddarparu manteision amgylcheddol pwysig ar gyfer y tymor hir.



Gwelliant mawr ar gyfer eleni yw cyflwyno **eitemau cyfalaf newydd sy'n gysylltiedig â dŵr, sy'n** cynnwys seilwaith fel cafnau, pibellau a gatiâu dŵr i ategu gwaith plannu ar lannau afonydd. Bydd hyn yn gwella bioamrywiaeth ac yn helpu i ddiogelu cysiau dŵr rhag effeithiau negyddol

newid hinsawdd, fel tymheredd uwch. Bydd hefyd yn darparu llain glustogi werthfawr rhag gweithgareddau amaethyddol i wella ansawdd dŵr.

Bydd cyfraddau talu ar draws cynlluniau Creu Coetir hefyd yn cynyddu yn dilyn adolygiad 2026. Ochr yn ochr â'r cyfraddau uwch hyn, bydd perchnogion tir yn gymwys i gael **cymhelliant ychwanegol o £825/Ha** ar gyfer gwaith plannu llydanddail brodorol penodol a gwblheir o fewn tair blynedd gyntaf y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Bwriad y dull gweithredu hwn yw annog pobl i fanteisio ar gyfleoedd plannu yn gynnar.

Newid arall yw cynyddu **hyd contract** ein Cynllun Grant Creu Coetir i ganiatáu **hyd at ddwy flynedd** i gwblhau gwaith plannu ar raddfa fwy. Mae'r dull hwn yn cynnig hyblygrwydd i'r rhai sy'n delio â ffactorau tymhorol, argaeledd contractwyr neu heriau'r gadwyn gyflenwi.

Gyda'i gilydd, nod y diweddariadau hyn yw sicrhau bod creu coetir yn hygyrch ac yn gyraeddadwy i fusnesau fferm. Trwy gynnig eglurder, gwell cymorth a mwy o hyblygrwydd o ran cyflawni, mae pecyn 2026 wedi'i gynllunio i helpu ffermwyr i wneud penderfyniadau hyderus ynghylch integreiddio coed ar eu tir.

I gael gwybodaeth am y Cynllun Creu Coetir ewch i:

llyw.cymru/grantiau-bach-creu-coetir
llyw.cymru/grant-creu-coetir

DIM GORCHYMYN CYFLOGAU AMAETHYDDOL NEWYDD AR GYFER 1 EBRILL 2026

O 1 Ebrill 2025 bydd lefelau'r isafswm cyflog a amlinellir yng Ngorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2025 yn parhau mewn grym, oni bai y bydd newidiadau i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn eu disodli.

Gan mai isafswm yw'r lefelau hyn gall unrhyw gynnydd blynyddol bwriedig neu ddisgwyledig yng nghyfraddau cyflog ddigwydd o'r dyddiad hwn, a hynny'n wirfoddol. Bydd cyfraddau newydd yr Isafswm Cyflog Amaethyddol yn cael eu hystyried cyn gynted ag y bo'n bosibl. Gallai Gorchymyn Cyflogau yn y dyfodol ystyried taliadau wedi'u hôl-ddyddio ar gyfer gweithwyr amaethyddol.

Beth mae hyn yn ei olygu i weithwyr a chyflogwyr

- ✓ Bydd gweithwyr ar raddau is (A a B) yn gweld eu cyfraddau isafswm yn cael eu **codi'n awtomatig i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol/Cyflog Byw Cenedlaethol sy'n berthnasol**, pan fo'r cyfraddau cenedlaethol hyn yn uwch na'r isafswm cyflog amaethyddol presennol.
- ✓ Ar gyfer **Graddau C i E**, ni fydd cyfraddau 2025 yn newid. Mae'r graddau hyn eisoes yn uwch na'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol/Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Gwirioneddol.
- ✓ Gall cyflogwyr ddewis cynnig codiadau cyflog yn wirfoddol.



Cyfraddau'r Isafswm Cyflog Amaethyddol

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r cyfraddau statudol presennol o'u cymharu â'r rhai a fydd yn berthnasol o 1 Ebrill 2026.

Categori'r Gweithiwr	01 Ebrill 2025	01 Ebrill 2026
A1 (16–17)	£7.55	£8.00
A2 (18–20)	£10.00	£10.85
A3 (21+)	£12.21	£12.71
B1 (16–17)	£7.55	£8.00
B2 (18–20)	£10.00	£10.85
B3 (21+)	£12.59	£12.71
C – Gweithiwr Amaethyddol Uwch	£13.48	£13.48
D – Uwch-weithiwr Amaethyddol	£14.79	£14.79
E – Rheolwr Amaethyddol	£16.23	£16.23
Prentis Blwyddyn 1	£7.55	£8.00
Prentis Blwyddyn 2+ (16-17)	£7.55	£8.00
Prentis Blwyddyn 2+ (18-20)	£10.00	£10.85
Prentis Blwyddyn 2+ (21+)	£12.21	£12.71

IECHYD A LLES ANIFEILIAID

Gwnewch yn siŵr bod eich buches yn cael ei phrofi am Ddolur Rhydd Feirysol Buchol cyn 1 Gorffennaf 2026

O dan ddeddfwriaeth Dolur Rhydd Feirysol Buchol (BVD), rhaid i geidwaid:

- ✓ sgrinio eu buchesi am Ddolur Rhydd Feirysol Buchol bob blwyddyn
- ✓ profi i adnabod anifeiliaid â haint parhaus (PI) os canfyddir tystiolaeth o BVD yn y fuches,
- ✓ ynysu anifeiliaid sydd â haint parhaus (PI) oddi wrth weddill y fuches am weddill eu hoes.

Mae'r gwaith sgrinio BVD yn gofyn am samplau gwaed o bum anifail, yn ddelfrydol rhwng 9–18 mis oed fesul grŵp rheoli. Fodd bynnag, os nad yw hyn yn bosibl, siaradwch â'ch milfeddyg am arweiniad pellach ar ba wartheg eraill y gellir eu profi ar eich daliad. Bydd canlyniadau'r gwaith sgrinio hwn yn rhoi statws BVD i'r daliad.

O 1 Gorffennaf 2026 ymlaen, bydd yn ofynnol i fuchesi nad ydynt wedi cwblhau eu prawf sgrinio gael prawf cyn symud anifeiliaid ar gyfer BVD cyn iddynt adael y daliad.

Statws BVD Buches

Bydd pob daliad yn cael statws. Esbonnir y ddau statws posibl isod:

Statws BVD Negatif

Dyfernir y statws hwn:

- ✓ Pan fydd pob un o'r pum anifail ifanc ym mhob grŵp rheoli a brofwyd fel rhan o'r gwaith sgrinio blynyddol i gyd yn cael canlyniad gwrthgyrff negatif.
- ✓ Pan fydd daliad wedi cwblhau Helfa PI, mae'r holl anifeiliaid PI

wedi'u symud ymaith, ac mae cais i newid statws y daliad wedi'i gyflwyno.

Statws BVD Nad yw'n Negatif

Rhoddir y statws hwn i ddaliadau lle naill ai:

- ✓ mae un neu fwy o'r pum anifail ifanc a sgriniwyd fel rhan o'r gwaith sgrinio blynyddol wedi profi gwrthgyrff positif.
- ✓ cafwyd diagnosis o BVD trwy unrhyw dull arall.
- ✓ mae gwaith sgrinio blynyddol y daliad wedi dod i ben / heb ei gwblhau.

Cysylltwch â'ch milfeddyg i drefnu eich prawf BVD.

Brechu rhag Feirws seroteip 3 y Tafod Glas (BTV-3)

Brechu yw'r ffordd orau o amddiffyn da byw a lleihau effeithiau Tafod Glas ar fusnes eich fferm. Mae angen amser i archebu'r brechlyn a'r roi, ac mae'n cymryd pedair wythnos mewn defaid a chwe wythnos mewn gwartheg ar ôl eu brechu i'r imiwnedd ddechrau ac i'r brechlyn roi'r amddiffyniad gorau. Ystyriwch beth sydd orau i'ch buches neu ddiadell nawr, a holwch eich milfeddyg am rinweddau brechu a phryd fyddai'r amser gorau i wneud.

Fe welwch ragor o wybodaeth yn: llyw.cymru/gwybodaeth-am-y-brechlynnau-btv-3-sydd-ar-gael-ar-gyfer-ceidwaid-anifeiliaid-milfeddygon



Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm

Gwasanaeth cymorth wedi'i ariannu'n llawn



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rydym yn rhoi arweiniad i gwsmeriaid mewn perthynas â holl feysydd polisi ynghyd a cynlluniau ffarmwriaeth a gwledig a weinyddir gan Lywodraeth Cymru.



Rydym yma i helpu, cysylltwch a ni.

CYMRU GYFAN

Rita Jones

Cymraeg

07971 048619

rita.jones@gov.wales

DE-DDWYRAIN CYMRU

Jane Walters

07721 894875

jane.walters@gov.wales

Caitlin Harley

Cymraeg

07890 663351

Caitlin.harley@gov.wales

DE-ORLLEWIN

Catrin Jones

Cymraeg

07968 159637

catrin.jones3@gov.wales

Caitlin Harley

Cymraeg

07890 663351

Caitlin.harley@gov.wales

GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU

Armando Morgan

Cymraeg

07774 950639

armando.morgan@gov.wales

GOGLEDD-ORLLEWIN CYMRU

Janet Phillips

Cymraeg

07774 950654

janet.phillips@gov.wales

CANOLBARTH CYMRU

Steve Meredith

07721 894873

stephen.meredith@gov.wales

Eve Bridgewater

07721 894869

eve.bridgewater@gov.wales

Jane Walters

07721 894875

jane.walters@gov.wales

FLS
Tim Cysylltwyr Fferm
Farm Liaison Service

BLE ALLA I GAEL HELP?

CYSYLLTWCH Â NI

FARMWELL CYMRU

www.farmwell.cymru

CYSWLLT FFERMIO

03456 000 813

SEFYDLIAD DPI

07860 048799 (testun yn unig)

CRONFA ADDINGTON

01926 620135

TIR DEWI

0800 1214722
mail@tirdewi.co.uk

Tîm CYSYLLTWYR FFERM

0300 0255449
familiaisonservice@llyw.cymru

SEFYDLIAD FUDDIANOL AMAETHYDDOL FRENHINOL (RABI)

0800 188 4444
help@rabi.org.uk

Y RHWYDWAITH CYMUNEDAU FFERM

03000 111 999
help@fcn.org.uk

CANOLFAN GYSWLLT CWSMERIAID TALIADAU GWLEDIG CYMRU

0300 062 5004

MIND CYMRU

0300 123 3393
info@mind.org.uk

SAMARITANS

116 123
jo@samaritans.org